# PROTOCOL ARFER GORAU TPC 2D

## GWRANDAWIADAU PREIFAT

**Cyflwyniad**

1. Bydd gwrandawiad tribiwnlys fel arfer yn cael ei gynnal yn gyhoeddus, ac maent yn agored i unrhyw un fynychu, gan gynnwys y wasg.

**Deddfwriaeth**

- Rheoliad 30(3) o Reoliadau Ardrethu Annomestig (Newid Rhestri ac Apelau) (Cymru) 2005 (OS 2005/758)
- Rheoliad 25(3) o Reoliadau'r Dreth Gyngor (Newid Rhestri ac Apelau) 1993 (OS 1993/290)

*“Bydd y gwrandawiad yn cael ei gynnal yn gyhoeddus, oni bai bod y tribiwnlys prisio yn gorchymyn fel arall ar gais parti, ac ar ôl ei fodloni y byddai buddiannau’r parti hwnnw’n cael ei heffeithio’n niweidiol.”*

- Rheoliad 37(3) o Reoliadau Tribiwnlys Prisio Cymru 2010 (OS 2010/713)

*“Rhaid i’r gwrandawiad gael ei gynnal yn gyhoeddus oni bai bod y Panel Apêl yn gorchymyn fel arall wedi bodloni fod er budd cyfiawnder i gynnal gwrandawiad, neu ran o wrandawiad, yn breifat.”*

**Gwrandawiadau Preifat**

2. Gall unrhyw barti ofyn am wrandawiad preifat - ‘gwrandawiad mewn camera’.

3. Dylid gwneud cais am wrandawiad preifat i'r Tribiwnlys/Panel Apêl yn gyhoeddus, gan esbonio pam mae'r cais hwnnw'n cael ei wneud.

4. Bydd y Tribiwnlys/Panel Apêl yn ystyried sylw(adau) y parti(on) eraill.

5. Gall aelodau'r Tribiwnlys/Panel Apêl ymddeol i ystyried y cais.

6. Gall y rhesymau dros gynnal gwrandawiad neu ran o wrandawiad yn breifat gynnwys:

   - gwybodaeth gyfrinachol;
   - amddiffyn budd unrhyw blentyn neu berson bregus; neu
   - bod Tribiwnlys/Panel Apêl o'r farn ei fod yn angenrheidiol er budd cyfiawnder.

7. Pan benderfynir y bydd y gwrandawiad yn mynd rhagddo yn breifat, caiff y Tribiwnlys/Panel Apêl gyhoeddi cyfarwyddyd ynghylch pwy y caniateir iddynt fod yn bresennol a phwy sydd ddim.

8. Rhaid nodi penderfyniad i gynnal gwrandawiad neu ran o wrandawiad yn breifat o fewn y rhesymau dros y penderfyniad.

9. Fel rheol, bydd rhesymau'r Tribiwnlys/Panel Apêl dros benderfyniad yn cael eu cyhoeddi; fodd bynnag, bydd gwybodaeth sensitif yn cael ei olygu lle bo angen.